| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi** |
| **DYDDIAD** | **22 Mawrth 2018** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr** |
| **AWDUR** | **Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig** |

## 1. Cod Diogelwch Porthladdoedd

1.1 Mae'r Cod Diogelwch yn 'ddogfen fyw' ac sydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan staff harbyrau y Gwasanaeth. Mae yn anorfod fod y Gwasanaeth yn derbyn sylwadau a barn Aelodau o'r Pwyllgorau Ymgynghorol ar addasrwydd y Cod Diogelwch a hefyd i dderbyn sylwadau yn rheolaidd ar ei chynnwys fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu fel bod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, safon cymhorthion mordwyo, addasrwydd yr is ddeddfau, materion diogelwch a gwaith cyffredinol dydd i ddydd yn Harbwr Aberdyfi.

1.2 Rhwng y 19eg ac yr 21ain Medi 2017 fe gynhaliwyd arolygiad trylwyr gan archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau a hyn yn adolygiad o drefniadau a sustemau diogelwch presennol harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd er sicrhau cydymffurfiaeth a'r Cod Diogelwch Porthladdoedd.

1.3 Yn dilyn adolygiad gan Asiantaeth Gwylwyr y Glannau a gynhaliwyd ym mis Medi 2017 mae'r Gwasanaeth wedi derbyn adroddiad yn dilyn yr archwiliad gan yr arbenigwr allanol. Mae copi o'r adroddiad yn atodol ac fe fydd y Gwasanaeth yn gweithredu ar argymhellion yr archwilwyr yn ystod y misoedd nesaf. Croesawir sylwadau'r Pwyllgor ar gynnwys yr adroddiad.

1.4 Fel ac yr adroddwyd i'r Pwyllgor Ymgynghorol yn yr Hydref, barn gychwynnol yr archwilwyr oedd bod y Cyngor yn cyd-fynd gyda'r gofynion yn gyffredinol ond bod angen addasu rhai elfennau sydd yn gysylltiedig â chofnodi dyletswyddau a nodi pwy yw Daliwr Dyletswydd a'r Person Dynodedig. Rhagwelir bydd angen trafod hyn ymhellach oddi fewn y Cyngor a rhagwelir bydd cyfrifoldeb Daliwr Dylestwydd yn trosglwyddo i Gabinet y Cyngor maes o law.

1.5 Parthed y Person Dynodedig mae'r Cyngor wedi derbyn cefnogaeth gan Gyngor Conwy ac y Person Dynodedig ar gyfer Harbyrau Gwynedd bydd Harbwr Feistr Conwy. Mae yn hanfodol na fod y Person Dynodedig gyda chysylltiad a'r Cyngor neu yr Awdurdod Harbwr fel gallasai fod yn hollol anibynnol.

1.6 Yn ystod yr ymweliad fe fu i'r archwilwyr ymweld ag harbyrau Aberdyfi, Porthmadog (canolfan y gwaith archwilio) a Phwllheli. Ni fu iddynt ymweld ac Abermaw oherwydd cyfyngiadau mewn amser.

1.7 Pwysleisir na gyflwynwyd unrhyw rybudd o welliant yn ymwneud a materion neu drefniadau diogelwch difrifol; safon neu ddiffygion yn yr harbyrau. Nodwyd gan yr archwilwyr fod cyfle i wella ar daclusrwydd oddi amgylch cei harbwr Aberdyfi gan fod yna nwyddau a rhaffau wedi eu cadw ar y cei mewn ffordd a allasai achosi risg. Mae yn anorfod fod y materion hyn wedi eu gweithredu arnynt gan staff y Gwasanaeth yn ystod misoedd y gaeaf. Cyflwynwyd sylwadau ynglŷn â diffyg lled y sianel fordwyo yn harbwr Pwllheli er ni rhagwelir fod hyn yn fater a fyddai yn dechnegol oddi fewn trefn yr archwiliad. Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau am faterion diogelwch yn harbwr Porthmadog.

1.8 Er bod y Cod Diogelwch Porthladdoedd yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y gwasanaeth mae yn anorfod atgoffa Aelodau o'r Pwyllgorau Ymgynghorol o'r ddyletswydd arnynt i gyflwyno sylwadau ar addasrwydd y Cod Diogelwch ac i dderbyn sylwadau ar drefniadau

gwaith yr harbyrau fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu er sicrhau bod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, priodoldeb lleol

1.9 Fe fydd archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau yn ail ymweld â'r Cyngor yn ystod yr Hydref nesaf. Y bwriad yw bod dilyniant i'r adolygiad yn cael ei gynnal ar ddyddiad ble cynhelir cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ble gwahoddir aelodau o holl Bwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau Gwynedd i'r cyfarfod er derbyn cyflwyniad gan yr archwilwyr ar faterion sydd yn gysylltiedig â'r Cod Diogelwch Porthladdoedd. Fe fydd hyn hefyd yn gyfle i Aelodau o'r Pwyllgorau Ymgynghorol i holi'r arbenigwyr ar faterion yn ymwneud a'r Cod Diogelwch Porthladdoedd ac i'r Archwilwyr gadarnhau cyfrifoldebau am gynnwys a gweithrediad y Cod Diogelwch.

**2. Materion Mordwyo**

2.1.1 Rhagwelir bydd archwiliad manwl yn cael ei gynnal ar gymhorthion mordwyo Aberdyfi gan archwilwyr Awdurdod Goleudai Tŷ'r Drindod ar y 14eg Awst 2018.

2.1.2 Yn y man 2 Rybudd i Forwyr sydd mewn grym yn harbwr Aberdyfi.

2.1.3 Rhybudd Rhif 1 - 12/01/2018 - 52°32.290' N 004°04.637' W Nid yw Cymhorthydd Mordwyo Starbord - Rhif 3 QFl G ar ei safle priodol

2.1.1 Rhybudd Rhif 2 – 05/02/2018 - 52°32.469'N 004°02.861'W Nid yw Cymhorthydd Mordwyo YSM 4 Knots - YSM FL.Y 2s - ar ei safle priodol.

2.1.2 Bydd yn fwriad sicrhau fod gwaith cynnal a chadw Bwi Tramwyo (Fairway) yn cael ei gwblhau yn yr wythnosau nesaf er sicrhau bod y bwi yn barod i'w ail leoli yn y bae.

2.1.3 Mae rhaglen waith cynnal a chadw'r Cymhorthion Mordwyo'r Harbwr wedi ei gwblhau a hyn yn unol â chytundeb, cyfarwyddwyd ac arweiniad y Pwyllgor Ymgynghorol. Fe fydd diweddariad o'r sefyllfa gyfredol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau gan yr Uwch Swyddog Harbyrau yn y cyfarfod.

2.2 **<u>Cynnal a chadw</u>**

2.2.1 Cyflwynir trefniadau a rhaglen waith ar gyfer cynnal a chadw elfennau allweddol harbwr Aberdyfi gan yr Harbwr Feistr yn y cyfarfod.

2.2.2 Bydd yr Harbwr Feistr yn cyflwyno rhaglen waith cynnal a chadw a fu i'w gweithredu yn Harbwr Aberdyfi yn ystod y cyfnod Ionawr - Mawrth 2018 ac yn rhoi amlinell o'r rhaglen waith a lwyddwyd i'w gwblhau yn y cyfnod Hydref - Rhagfyr 2017. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried a'i gynnwys ar y rhaglen waith.

2.2.3 Yn anffodus oherwydd materion technegol nid oedd cerbyd addas ar gael i gwblhau rhai tasgau. Cadarnheir fod y Cyngor wedi buddsoddi yn sylweddol a bod y Gwasanaeth wed i dderbyn tri cherbyd newydd ar gyfer gwasanaethu traethau'r sir at y dyfodol. Mae un cerbyd wedi ei leoli yn Aberdyfi ar gyfer gwasanaethu ardal i'r de o Friog.

2.2.4 Mae'r contractwr angorfeydd wedi cychwyn ar waith i ail leoli angorfeydd yn harbwr Aberdyfi. Er ni ragwelir bydd nifer gychod yn lansio cyn Gŵyl Y Pasg mae'r contractwr yn anelu i sicrhau fod rhai angorfeydd ar gael i forwyr pe bydd cychod yn bwriadu lansio. Mae holl angorfeydd ymwelwyr y Cyngor wedi eu cynnal a chadw i'r safon ddisgwyliedig.

Mae yn hanfodol bod y contractwr angorfeydd yn cyflwyno Tystysgrif Ansawdd Angorfa i'r Harbwr feistr cyn bod cwch yn cael ei angora ar yr angorfa. Mae hyn yn ofyn dan Is ddeddf yr harbwr.

2.2.5 **Llwybr Pren (Boardwalk) -** Mae'r 'Llwybr Pren' (Boardwalk) sydd yn arwain ar draws y twyni ger y cwrs golf wedi bod ar gau oherwydd diffygion difrifol yn y strwythur. Mae sawl stanc allweddol wedi pydru sydd yn golygu nid yw'r llwybr yn ddiogel i'w ddefnyddio ac felly ma ear gau dros dro. Mae'r cyhoedd yn parhau i ymweld â'r traeth gan dramwyo cyfochrog a'r Llwybr Pren ond yn anffodus bydd hyn yn achosi difrod ac erydiad i'r twyni tywod. Nid yw'r llwybr yn Llwybr Cyhoeddus ac felly nid oes yna ofyn statudol bod y llwybr pren yn cael ei adnewyddu.

2.2.6 Gan fod y Llwybr Pren yn boblogaidd ac yn allweddol bwysig i warchod y twyni tywod fe fydd y Gwasanaeth yn paratoi i gynnal a chadw'r llwybr yn ystod y misoedd nesaf. Y bwriad yw ceisio cryfhau'r Llwybr Pren drwy ddefnyddio stanciau plastic. Yn anffodus oherwydd diffyg adnoddau ni allwn bennu dyddiad pryd bydd y llwybr yn ail agor. Gan fod sefyllfa cyllideb y gwasanaeth yn ddifrifol fe fydd angen ceisio am gefnogaeth ariannol yn lleol er cyfrannu ar gost cynnal a chadw'r llwybr.

2.2.7 Mae Traeth y Fynwent wedi ei adnabod dan gyfarwyddyd dwr Ymdrochi ac mae'r dŵr yn cael ei fonitro yn rheolaidd yn ystod y tymor ymdrochi gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Gan fod traeth y fynwent yn draeth dwr ymdrochi rhagwelwn bydd defnydd o'r traeth yn cynyddu a golygai hyn bydd angen ystyried y llwybr mwyaf addas ar gyfer cyrraedd y traeth. Mae gan y gwasanaeth gyflenwad Ysgolion Tywod ac fe fydd yr Uwch Swyddog Traethau yn ystyried addasrwydd y rhain ar gyfer y safle.

2.3 **Ynys Picnic** - Mae'r bont droed sydd yn croesi trosodd at Ynys Picnic yn parhau i achosi pryder. Er bod prif strwythur y bont mewn cyflwr diogel mae'r coed sydd yn wynebu'r bont wedi dirywio. Mae yn fwriad ail wynebu prif ran o'r bont gyda defnydd plastic fel y defnyddiwyd ar wyneb pontŵn cychod. Er cyflwynwyd cais am gymorth ariannol ni lwyddwyd i dderbyn arian cyfalaf tuag at y gwaith. Mae'r bont yn cael ei archwilio yn rheolaidd gan beirianwyr yr Uned Ymgynghoriaeth Gwynedd. Mae'r archwiliadau yn bwysig dros ben er sicrhau diogelwch y cyhoedd a chan fod y bont yn croesi prif gledrau llinell drenau'r Cambrian.

2.4 **Pontŵn -** Yn ystod y gwyntoedd cryfion a gafodd effaith trychinebus ac achosi difrod difrifol ar farina Caergybi cafwyd difrod llai ei achosi i bontŵn yn harbwr Aberdyfi. Nid ydym yn rhagweld bydd yn bosibl adfer y pontŵn ac mi fyd angen ystyried ffyrdd amgen i storio cychod gweini yn ardal Bae'r Eglwys at y dyfodol. Yn anffodus roedd rhai arnofion wedi eu difrodi yn sylweddol gan achosi llygredd ysbwriel mewn rhan o'r harbwr. Mae staff wedi ymdrechu i glirio'r ysbwriel ond rhagwelir bydd y peli polysteirin i'w gweld ar y blaendraeth am amser hir.

2.4.1 **Arwyddion Diogelwch**. Mae'r Gwasanaeth, a hyn ar y cyd gyda Sefydliad y Bad Achub a chynrychiolydd lleol o'r Bad Achub, wedi cwblhau adolygiad manwl o'r holl arwyddion diogelwch oddi amgylch ardal yr Harbwr a thraeth Aberdyfi a thraeth Tywyn. Mewn ymateb i'r archwiliad ac mewn ymgynghoriad gyda Mudiad y Bad Achub mae'r Gwasanaeth yn bwriadu archebu arwyddion newydd a fydd yn cael eu gosod ar sawl safle oddi amgylch yr harbwr a ger y traeth yn Aberdyfi.

2.4.2 Fe fydd y gwasanaeth yn ymgynghori ymhellach gyda'r Aelodau Lleol yn Nhywyn gan bosibl bydd yna fan addasiadau angen ei gynnwys ar y wybodaeth a gyflwynwyd ar yr arwyddion. Rhagwelir bydd arwyddion Aberdyfi ar eu safle cyn Gŵyl Banc Mai a bod arwyddion Tywyn ar eu safle cyn cyfnod prif wyliau'r haf. Mae'r gwasanaeth, ar y cyd gyda'r RNLI wedi cynnal

archwiliad manwl o holl arwyddion prif draethau'r sir ac yn ystod 2018 mae'n fwriad ymestyn y rhaglen adnewyddu arwyddion i gynnwys pob traeth sydd wedi ei ddynodi yn Ddŵr Ymdrochi.

2.4.3 Rhwng y ddau safle rhagwelir bydd cyfanswm cost yr arwyddion yn £12,500 gyda chost dylunio a rhag paratoi, sef paratoi templedi, yn £500 (eithrio TAW.) Oherwydd natur traeth Aberdyfi rhagwelir bydd angen tynnu rhai arwyddion oddi ar y safle yn ystod misoedd y gaeaf er lleihau difrod a achoswyd i'r arwyddion gan y tywydd garw. Ariannwyd y gwariant yn rhannol drwy gynllun TAIS, sef cronfa Twristiaeth Llywodraeth Cymru.

2.4.4 **Taflen Traeth** - atodir taflen traeth/harbwr a fydd wedi ei adolygu yn ddiweddar gan ofyn barn yr Aelodau ar gynnwys y daflen. Bwriedir cynhyrchu'r daflen cyn Gŵyl Y Sulgwyn. Bydd y cynllun hefyd yn cael ei arddangos ar arwyddion mewn safleoedd addas.

2.4.5 **F.L.A.G -2018 (Fisheries Local Action Group)**. Mae cyfnod newydd F.L.A.G wedi cychwyn yng Nghymru ac mae Swyddog wedi ei phenodi i arwain ar y prosiect drwy drefniant Cyngor Ceredigion. Yn ddarostyngedig ar ganiatâd y Cadeirydd mi fydd Cadeirydd y Grwp FLAG yn mynychu'r cyfarfod er adrodd i'r pwyllgor ar faterion F.L.A.G. Ni does manylion pellach ynglŷn â rhaglen F.L.A.G wedi dod at law hyd yma. Fe fydd y gwasanaeth yn cynorthwyo y grwp fel bod bosibl er sicrhau llwyddiant unrhyw ddigwyddiad a drefnwyd yn Aberdyfi. Deellir mai ceisiadau am gymorth ariannol grant refeniw yn unig bydd yn derbyn cymeradwyaeth FLAG ac nid ceisiadau am Gymorth ariannol cyfalaf.

2.4.6 **Symud Tywod - 2018**. Rhagwelir bydd gwaith symud tywod o'r traeth wedi cychwyn ar y 12fed Mawrth 2018. Bydd cyfnod a maint y gwaith yn ddibynnol ar y maint tywod sydd wedi casglu yn yr ardal. Rhagwelir bydd tywod sydd wedi casglu yn y Maes Parcio ac ar y 'promenâd' bychain hefyd yn cael ei glirio fel rhan o'r cytundeb. Er ceisio arbed tywod rhag chwythu oddi ar y traeth at y maes parcio a'r stryd fawr mae staff yr harbwr wedi ymestyn ffens wrth ochr y promenade.

2.4.7 **Cynhwysyddion** – Mae sawl cynhwysydd sydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cadw offer hwylfyrddio a chanŵio wedi eu parcio ar dir ger compownd y Clwb Hwylio. Mae'r cynhwysyddion ar dir y Cyngor ac nid ar dir dan brydles trydydd parti. Mae perchenogion y cynhwysyddion wedi cael defnydd anawdurdodedig o'r safle ers peth amser.

2.4.8 Mae cyflwr nifer o'r cynhwysyddion yn achosi pryder ac nid oes unrhyw ymdrech yn dod i'r amlwg fod y safle neu'r cynhwysyddion yn cael eu cynnal a chadw gan y perchenogion. Oherwydd y diffyg cynnal a chadw a diffyg Gwybodaeth pwy sydd yn berchen y cynhwysyddion hyn fe fydd y Cyngor, drwy'r Harbwr Feistr, yn cymryd camau i symud y cynhwysyddion oddi ar y safle oni bai bod perchenogion yn cyflwyno eu manylion llawn i'r Cyngor ac yn cytuno i dalu ffi flynyddol am yr hawl i leoli'r cynhwysydd ar y safle.

## 2.5 <u>Materion Staff</u>

2.5.1 Daeth cyfnod cyflogaeth Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi (tymhorol) i ben ar y 30ain Medi 2017. Fel yr adroddwyd yn yr hydref fe fu i'r cytundeb gyflogaeth gael ei ymestyn hyd at y 31 Rhagfyr 2017 ar sail 3 diwrnod yr wythnos. Er sicrhau parhad gwasanaeth a chyflawni gwaith allweddol mae'r swydd wedi ei ymestyn ar sail 3 diwrnod yr wythnos (Mawrth, Mercher a Iau) hyd at ddiwedd mis Mawrth 2018. Mawr obeithir bydd swyddi Cymhorthyddion Harbyrau Aberdyfi, Abermaw a Phorthmadog yn dychwelyd yn llawn amser mis Ebrill 2018 hyd at 30 Medi 2018.

2.5.2 Er y sefyllfa ariannol ddifrifol a thoriad yng nghyllideb y gwasanaeth mae'n fwriad i benodi Cymhorthydd Traeth ar gyfer Aberdyfi yn 2018. Er bydd Cymhorthydd Traeth yn cael ei

benodi ni chyflwynir cais am Wobr Traeth ar gyfer Traeth Aberdyfi yn y dyfodol. Penderfyniad y Cyngor yw cyflwyno ceisiadau am wobr traeth ble bod ansawdd dwr ymdrochi yn cyrraedd y safon 'Ardderchog'. Mae safon ansawdd dwr ymdrochi Aberdyfi yn cyrraedd y safon 'Boddhaol'. Mae hyn yn galonogol dros ben gan yn y gorffennol roedd safon yr ansawdd dwr ddim yn cyrraedd y safon isaf.

2.5.3 **Wal y Cei**. Fe fydd diweddariad ynglŷn â chynlluniau a datblygiadau diweddaraf parthed Wal y Cei yn cael ei gyflwyno er sylw Aelodau yn y cyfarfod. Mae posteri wedi ei dosbarthu yn lleol yn tynnu sylw'r cyhoedd bod y Cyngor yn cynnal sessiwn 'Galw Fewn' ble bydd cyfle i'r cyhoedd drafod y cynlluniau gyda peirianwyr Ymgynghoriaeth Gwynedd. Cynhelir y sesiwn 'Galw Fewn' yn Neuadd Dyfi rhwng 14.00 a 19.00 ar yr 22ain Mawrth 2018. Croeso cynnes i bawb. Atodir gopi o'r poster hysbysebu er gwybodaeth.

2.5.4 **Tir Comin / tir ystorfa. Gwastraff.** Mae gwaith clirio safle ble bod gwastraff wedi ei waredu yn anghyfreithlon wedi cychwyn. Mae'r contractwr a benodwyd wedi clirio rhan helaeth o'r safle ond mae yna wastraff asbestos a chawelli oergell a rhewgell yn parhau angen eu gwaredu. Fe fydd cost ychwanegol ynglwm a hyn ac mi fydd y gwasanaeth yn trefnu'r gwaith hwn yn fuan.

2.5.5 Fel y bydd wedi ei adrodd i'r Pwyllgor ym mis Hydref mae yn allweddol bwysig fod unigolion sydd ag offer pysgota ar y safle yn sicrhau fod eu holl offer yn daclus ac wedi ei storio yn gywir. Yn anffodus nid oes cydwithrediad wedi digwydd ar hyn yn lleol. Yn yr ail ymgyrch pwysleisir bydd unrhyw offer pysgota yn cael ei waredu pe bydd y Gwasanaeth o'r farn na fod yr offer wedi ei storio yn gywir a phe na fod defnydd i'r offer.

2.5.6 Yn anffodus parheir i bwysleisio unwaith yn rhagor yr angenrheidrwydd bod pysgotwyr, cynrychiolwr y Gymdeithas Bysgota a chynrychiolwyr eraill yn sicrhau fod yna neges glir ynglŷn â'r bwriad yn cael ei gyflwyno i'r pysgotwyr heb oedi. Er ein rhybuddion nid oes unrhyw ymdrech wedi ei wneud gan bysgotwyr i glirio Defnydd neu i storio offer yn daclus ar y safle.

2.5.7 Roedd cost y gwaith cychwynnol fel a ganlyn: - Hurio peiriannau = £410.00. Hurio sgip = £100 (x5 sgip) gyda chost gwaredu gwastraff yn £150 y dunnell. Cludwyd tua 30 tunnell ysbwriel i dir lenwi a golygai hyn bydd cost tir lenwi yn £4,500. Cost gwaith contractwr = £2,450.00. Holl gostau eithrio TAW.

2.6 **Ffioedd a Thaliadau 2018/19**. Mae taenlen ffioedd arfaethedig 2018 Harbwr Aberdyfi eisoes wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Harbwr gan ofyn am sylwadau'r Aelodau. Er yr adroddwyd y rhagwelwyd byddai chwyddiant Harbyrau ar gyfer 2018/19 yn 1.78% mae'r canran chwyddiant wedi ei adolygu yn dilyn nifer o ffactorau sydd yn cael effaith ar chwyddiant. Cadarnheir bydd y raddfa chwyddiant ar gyfer harbwr Aberdyfi yn 2018/19 yn cynyddu i 3.44% gyda chwyddiant cyfartaledd harbyrau Gwynedd yn 2.9%. Golygai bydd targed incwm yr harbwr Aberdyfi yn cynyddu at darged £25,560 yn 2018/19. Mae cyfanswm targed incwm y Gwasanaeth Morwrol yn £2,073.000.

2.7 Gan fod y gwasanaeth eisoes wedi cyfathrebu gyda chwsmeriaid yr harbwr y bwriad yw awgrymu bod y ffioedd a thaliadau yn parhau i gynyddu 2% ar gyfartaledd yn y flwyddyn ariannol 2018/19. Yn sgil y targedau herion ac gan fydd diffyg bosibl yn yr incwm fe fydd angen sicrhau fod y Gwasanaeth yn adnabod cyfleoedd incwm angen ac yn lleihau gwariant bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

2.8 Mae cynnydd chwyddiant Morworl a Pharciau Gwledig 2018/19 fel a ganlyn: -

**Chwyddiant Gwreiddiol** **Chwyddiant Adolygol**

| | | |
|---|---|---|
| • Traethau | - 3.10% | 4.43% |
| • Hafan | - 1.73% | 2.50% |
| • Pwllheli | - 1.78% | 2.53% |
| • Harbyrau | - 1.78% | 2.90% |
| • Aberdyfi | - 1.78% | 3.44% |
| • Doc Fictoria | - 1.45% | 2.08% |
| • Parc Padarn | - 3.25% | 3.73% |
| • Parc Glynllifon | - 3.00% | 3.89% |

## 3. Materion Ariannol

3.1 Bydd mantolen yn adrodd ar y sefyllfa ariannol yn harbwr Aberdyfi hyd at ddiwedd Chwefror 2018 yn cael ei ddosbarthu yn y cyfarfod.

3.2 Bydd y gwasanaeth yn parhau i ymrwymo adnodd cyllid ar gyfer y canlynol: -

- Cynnal a chadw a phwrcasu Cymhorthion Mordwyo a Llusernau. Pwrcasu cadwyni newydd
- Cynnal a chadw offer a chelfi.
- Cynnal a chadw cwch ac ôl gerbyd y cwch
- Ymestyn cyfnod cyflogaeth staff.
- Cynnal a chadw tiroedd.
- Peiriannau newydd Cwch Patrol Harbwr Aberdyfi. Oedi ar y prosiect gyda bwriad cwblhau cyn diwedd mis Mai 2018.